# Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 10 Hydref 2012** |
| Amser: | **09:32 - 12:00** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_300000_10_10_2012&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Ann Jones (Cadeirydd)**<br>**Peter Black**<br>**Janet Finch-Saunders**<br>**Mike Hedges**<br>**Mark Isherwood**<br>**Bethan Jenkins**<br>**Gwyn R Price**<br>**Ken Skates**<br>**Joyce Watson** |
| Tystion: | **Carl Sargeant, Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau**<br>**Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr, Llywodraeth Cymru**<br>**Kate Cassidy, Llywodraeth Cymru**<br>**Jane Hutt, y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ**<br>**Amelia John, Llywodraeth Cymru**<br>**Claire McDonald, Llywodraeth Cymru**<br>**Joanne Glenn, Llywodraeth Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Marc Wyn Jones (Clerc)**<br>**Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)**<br>**Rhys Iorwerth (Ymchwilydd)**<br>**Hannah Johnson (Ymchwilydd)**<br>**Gwyn Griffiths (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

## 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Cafwyd ymddiheuriadau gan Rhodri Glyn Thomas. Nid oedd neb yn dirprwyo ar ei ran.

## 2. Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013/2014

Croesawodd y Cadeirydd y Gweinidog a'i swyddogion. Bu'r Aelodau'n holi'r Gweinidog.

Cytunodd y Gweinidog i wneud yr hyn a ganlyn:

Darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar gynnydd o ran y broses atebolrwydd yn seiliedig ar ganlyniadau;

Darparu diffiniad o ddatblygu cynaliadwy a gofyn i'r Gweinidog Amgylchedd a Chynaliadwyedd i ysgrifennu at y Pwyllgor am y mater hwn;

Darparu gwybodaeth am asesiad effaith rheoleiddiol Biliau o safbwynt ariannol ac a oes dulliau ar waith i olrhain y broses hon;

Os yn bosibl, darparu ffigurau ynghylch y cynllun a gynigiwyd i ddisodli budd-dal y dreth gyngor ym mis Ebrill 2013;

Darparu gwybodaeth am y partneriaethau Cymunedau'n Gyntaf sydd wedi gadael y cynllun;

Darparu gwybodaeth bellach am yr arian ychwanegol sydd ar gael i'r sector cynghori; a

Darparu manylion y model a ddefnyddir i ariannu'r Gwasanaeth Tân ac Achub ac yn arbennig sut y mae'n cymharu â'r ffordd y caiff awdurdodau lleol a'r heddlu eu hariannu.

## 3. Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013/2014

Croesawodd y Cadeirydd y Gweinidog a'i swyddogion. Bu'r Aelodau'n holi'r Gweinidog.

Cytunodd y Gweinidog i ddarparu'r hyn a ganlyn:

Rhestr o'r sefydliadau allanol a ariannwyd dros y cyfnod o dair blynedd;

Y templed a ddefnyddiwyd ar gyfer y canllawiau ar Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb; a

Y dyraniadau cyllidebol i sefydliadau sy'n cefnogi'r gwaith o ddarparu'r Cynllun Gweithredu ar y Strategaeth Cynnwys Ffoaduriaid.

## 4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

Cytunwyd ar y cynnig.

## 5. Ymchwiliad i Bolisi Llywodraeth Cymru ar yr amgylchedd hanesyddol - ystyried y dull gweithredu

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog am y cynnig arfaethedig i uno Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru.

**TRAWSGRIFIAD**

Trawsgrifiad o'r cyfarfod.